

Cartrefi Cymunedol Gwynedd

# Newyddlen Tenantiaid

*Cydweithio i wella eich cartrefi...*

GWANWYN  
2010

## Croeso i CCG

Gobeithio y bydd y magnet oergell yma yn ddefnyddiol i chi

Magnet ar goll?  
Ffoniwch ni ar  
**0300 123 8084**

## Ebrill 12<sup>fed</sup> yw'r diwrnod

Mae'r diwrnod trosglwyddo ar fin cyrraedd, pan fydd eich cartrefi yn trosglwyddo o Gyngor Gwynedd i Gartrefi Cymunedol Gwynedd ar ddydd Llun, Ebrill 12.

Dyna pryd y bydd y trosglwyddo ffurfiol yn digwydd, a CCG yn dod yn landlord newydd i chi.

Bydd y gwaith yn medru cychwyn wedyn ar gyflwyno'r rhaglen wella £136 miliwn fydd yn dod â'ch cartrefi i fyny at Safon Ansawdd Tai Cymru.

## Delwedd newydd i'ch landlord newydd

Mae'r cylchlythyr hwn yn rhan fawr o'r wedd newydd ac mi welwch faniau CCG ar y ffyrdd gyda'n gweithlu yn gwisgo lifrai newydd CCG.

Mae cardiau adnabod gan holl staff CCG, felly gofalwch eich bod yn gofyn am ei weld os bydd rhywun yn ymweld â'ch cartref.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau ein delwedd newydd.

## Sut i gysylltu

Mae'n hawdd iawn cysylltu â CCG gydag un rhif ar gyfer ymholiadau cyffredinol ac un i sôn am waith trwsio.

**Ymholiadau cyffredinol: 0300 123 8084**  
**Trwsio a rhif allan o oriau: 0300 123 8082**

Mae ein pencadlys newydd yn **Uned 6 a 7, Llys Castan, Parc Menai, Bangor, LL57 4FD** ac mae gennym swyddfeydd newydd ar draws y sir.

**Bangor:** Bryn Llwyd, Coed Mawr, Bangor, LL57 4SW  
**Caernarfon:** Siambr Buddug, Stryd y Goron, LL55 1SY  
**Pwllheli:** 14 Stryd Penlan, Pwllheli, LL53 5DH  
**Dolgellau:** Ffordd Arran, Fron Serth, Dolgellau, LL40 1LA

# Y Llofnodi Mawr...

Ein tasg fawr gyntaf yw cael tenantiaid i lofnodi ein **cytundeb tenantiaeth** newydd.

Mae'r cytundeb tenantiaeth hwn yn gwarchod yr holl hawliau allweddol oedd gennych gyda'r Cyngor.

Byddwch yn derbyn eich cytundeb tenantiaeth yn y post, ynghyd ag amlen barod i ateb. Llofnodwch y dudalen gyntaf a'i yrru yn ôl at CCG yn yr amlen barod.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni ar 0300 123 8084**



*Os nad ydych yn derbyn eich cytundeb tenantiaeth cofiwch roi gwybod i ni.*

## Pwy sy'n gyfrifol am beth

Unwaith y bydd trosglwyddo wedi digwydd, CCG fydd eich landlord newydd. CCG fydd biau eich cartrefi ac yn eu rheoli, ac y maent yn gyfrifol am y canlynol:

- Casglu rhent
- Dyrannu cartrefi
- Trwsio o ddydd i ddydd
- Gwelliannau i'r cartrefi a'r stadau
- Rheoli stadau
- Cyswllt tenantiaid
- Rhestr aros tai CCG

Er mai CCG biau cartrefi'r tenantiaid ac yn eu rheoli, bydd gan Gyngor Gwynedd rai cyfrifoldebau tai o hyd.

Bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â CCG a bydd yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i sôn am sut y mae'r addewidion yn cael eu cadw.

### Bydd y Cyngor:

- Yn gyfrifol am restr aros tai y sir
- Yn cadw'r cyfrifoldeb am sicrhau llety i bobl ddigartref
- Yn gyfrifol am Fudd-dal Tai
- Yn gyfrifol am y strategaeth tai ar gyfer yr ardal, gan weithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a datblygwyr preifat ar ddatblygiadau newydd a chynlluniau adfywio

# Eich rhent... Sut i dalu



O ddyddiad y trosglwyddo, byddwch yn gallu talu eich rhent trwy ddefnyddio cardiau newydd.

Mae'r cerdyn Allpay yn gadael i CCG brosesu rhenti yn effeithiol ac yn ateb anghenion ein tenantiaid.

Ond ni fyddwch yn medru talu eich rhent yn Swyddfeydd Arian y Cyngor bellach.

Byddwch hefyd yn medru talu trwy'r gwasanaeth casglu rhent sy'n bod eisoes.

Mae'r cerdyn newydd yn cael ei dderbyn yn y 124 swyddfa bost yn ardal cod post gyffredinol Gwynedd ac y mae gan y gwasanaeth Paypoint newydd 135 lleoliad, sy'n golygu y bydd gennych ddigon o gyfle i dalu efo'ch cerdyn newydd.

I ddod o hyd i'r safle Paypoint/ Swyddfa Post agosaf gallwch un ai ffonio CCG neu ymweld â gwefan Allpay, sef [www.allpay.net](http://www.allpay.net) a chlicio ar 'Search for payment outlet' a rhoi eich cod post i mewn. Bydd rhestr o'r manau talu yn eich ardal yn ymddangos. Mae oriau agor yr holl fannau Paypoint yn hir.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cardiau, neu am sut i'w defnyddio, cysylltwch â ni ar 0300 123 8084.



### DEBYD UNIONGYRCHOL

Mae debyd uniongyrchol yn ffordd hawdd o dalu eich rhent. Unwaith iddo gael ei sefydlu, fydd dim rhaid i chi wneud dim. Bydd Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn trefnu newid swm y Debyd Uniongyrchol os bydd eich rhent yn codi.

Mae ein Debyd Uniongyrchol di-bapur yn golygu nad oes raid i chi hyd yn oed lenwi ffurflen – bydd aelod o staff Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn cymryd eich manylion dros y ffôn, ac yna fe gewch lythyr cadarnhau yn nodi beth yw swm a dyddiadau'r taliadau.

I sefydlu Debyd Uniongyrchol, ffoniwch Cartrefi Cymunedol Gwynedd neu galwch heibio'r swyddfa. Y cyfan mae'n rhaid i chi wybod yw manylion eich cyfrif banc (côd didoli a rhif y cyfrif) - fe wnawn ni'r gweddill.

Byddwch yn parhau i allu talu gydag archeb sefydlog (*standing order*).

### Taliadau ffôn

Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd hefyd yn derbyn taliadau trwy Gerdyn Debyd dros y ffôn (0300 123 8084).

### Taliadau rhyngrwyd

Os ydych eisiau talu eich rhent dros y rhyngrwyd, gwnewch hyn trwy'r ddolen ar wefan Cartrefi Cymunedol Gwynedd ([www.ccgwynedd.org](http://www.ccgwynedd.org)). Bydd arnoch angen cerdyn Allpay a cherdyn debyd i wneud hyn. Os nad oes gennych gerdyn Allpay, cysylltwch â ni i drefnu i chi gael un am ddim. Bydd taliadau rhyngrwyd Allpay fel arfer yn cael eu trosglwyddo i'ch cyfrif rhent y diwrnod gwaith nesaf

### Taliadau testun

I ddechrau tecstio eich taliadau rhent, y cyfan sydd arnoch ei angen yw ffôn symudol wedi ei gofrestru yn y DU, cerdyn Allpay (dylai pob tenant fod ag un o'r rhain - os ydych wedi ei gollu, cysylltwch â ni ac fe gewch gerdyn newydd) a cherdyn debyd cyfredol. Wedi cofrestru ar-lein, fydd ddim yn cymryd llawer o amser, gall cwsmeriaid dalu eu biliau yn unrhyw le, unrhyw bryd.

### Sut i ddechrau gwneud taliadau testun:

#### Cam 1

Cofrestrwch ar-lein i osod manylion eich cerdyn i fyny - ewch at <https://www.allpayments.net/textpay/login.aspx> i wneud hyn. Os nad oes gennych fynediad at y rhyngrwyd, gallwch wneud hyn yn swyddfa Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Dim ond unwaith mae'n rhaid i chi gofrestru, oni fydd eich manylion (e.e. eich cerdyn debyd) yn newid.

#### Cam 2

Unwaith i chi gofrestru, bob tro yr ydych eisiau gwneud taliad, anfonwch neges testun at 81025 gyda'r manylion canlynol. "Pay rhent" yna'r swm yr ydych am ei dalu, ac yna eich cyfrinair testun, sef pedwar rhif olaf eich cerdyn debyd.

#### Cam 3

Byddwch wedyn yn derbyn neges destun yn ôl yn cadarnhau'r taliad.

## Cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru

Byddwn yn gweithio'n galed gyda thenantiaid i wneud yn siŵr eich bod wrth galon ein holl benderfyniadau wrth i ni gynllunio i gyflwyno Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn eich cartrefi a'ch cymunedau.

Gyda rhaglen £136 miliwn i gyflwyno SATC yn y pum mlynedd gyntaf, mae llawer o waith i'w wneud, ond hyd yn oed yn y cyfnod cynnar hwn, mae nifer o gontractau eisoes yn cael eu paratoi.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi sut mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen.



[www.ccgwynedd.org](http://www.ccgwynedd.org)

# Ein Gwasanaeth...

Gwasanaethau sydd ar gael yn ein swyddfeydd ardal  
**Cartrefi Cymunedol Gwynedd:**

- Cyngor ar lenwi ffurflenni cais
- Help i lenwi ffurflenni budd-daliadau
- Ymholiadau a gwybodaeth gyffredinol
- Cyngor ar sut i dalu eich rhent
- Yswiriant
- Cwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Canolfan gyswllt leol ar bob mater yn ymwneud â thai



Y Prif Weithredwr Ffranon Williams  
gyda Chadeirydd y Bwrdd John Glyn Jones

## Neges gan...

### Cadeirydd y Bwrdd, John Glyn Jones a'r Prif Weithredwr, Ffranon Williams

"Croeso i Gartrefi Cymunedol Gwynedd a dechreuad newydd i dai ar draws y sir.

Bydd trosglwyddo yn digwydd ar 12fed o Ebrill, sy'n golygu mai Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) fydd eich landlord newydd.

Hoffem fanteisio ar y cyfle yma i ddiolch i'n tenantiaid am ymddiried yn y corff a phleidleisio o blaid trosglwyddo.

Rydym erbyn hyn ar fin cyflawni'r addewidion a wnaethom i chi a phrofi eich bod yn iawn i ymddiried ynom ni.

Hoffem ddiolch i'n staff hefyd am eu holl waith caled yn gofalu fod popeth yn iawn i sicrhau trosi llyfn o'r Cyngor. Bydd cyn-staff y Cyngor yn trosglwyddo i CCG ac yn gwneud yn siŵr eich bod yn dal i dderbyn gwasanaethau effeithiol wrth i ni gyflwyno'r gwelliannau y gwnaethom eu haddo i chi.

Mae'r trosglwyddo yn gychwyn cyfnod newydd i denantiaid a staff fel ei gilydd, wrth i CCG fuddsoddi mewn cartrefi, stadau a gwasanaethau.

Dyma bennod newydd a chyffrous i dai yng Ngwynedd ac y mae tîm CCG wedi ymrwymo i fuddsoddi yn eich cartrefi a'ch gwasanaethau chi."

## Dewch i'n gweld ni yn ein swyddfeydd newydd

I nodi'r diwrnod mawr, mae gwahoddiad i'n tenantiaid alw heibio am banad a sgwrs efo'n staff ym mhob un o'n swyddfeydd newydd – lle gwelwch rai hen wynebau cyfarwydd, am bod ein staff hefyd yn trosglwyddo i CCG.

Am ein bod yn disgwyl i'r ychydig ddyddiau cyntaf wedi'r trosglwyddo fod yn brysur iawn wrth i ni ddod i arfer efo'r systemau newydd, mae gwahoddiad i chi ymweld ag unrhyw un o'n swyddfeydd ardal rhwng 10am a 3pm ar ddydd Mercher, Ebrill 14.

Dyma lle mae ein swyddfeydd newydd:

**Bangor - Bryn Llwyd, Coed Mawr, Bangor, LL57 4SW**  
**Caernarfon - Siambr Buddug, Stryd y Goron, LL55 1SY**  
**Pwllheli - 14 Stryd Penlan, Pwllheli, LL53 5DH**  
**Dolgellau - Ffordd Arran, Fron Serth, Dolgellau, LL40 1LA**

Edrychwn ymlaen at eich gweld!

## Croeso i'n gwefan newydd

Rydym eisiau gwneud yn sicr y bydd gennych lawer o ffyrdd o gael gwybodaeth am CCG ac y bydd yn hawdd i chi archebu gwaith trwsio a thalu eich rhent.

Bydd ein gwefan newydd [www.ccgwynedd.org](http://www.ccgwynedd.org) yn mynd yn fyw ar Ebrill 12, a byddwch yn gallu talu eich rhent, sôn am waith trwsio a dod i wybod mwy am CCG a'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig i chi.

Mae cyfeiriadau ein swyddfeydd a'r manylion cyswllt i gyd ar y wefan hefyd, felly rydym o fewn cyrraedd clic.